

Adolygiad o'r Rhaglen Ail-Iunio Gwasanaethau – **Cyngor Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1905A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mae wedi helpu i gyflawni arbedion, ond mae cyfle nawr i ailbennu ffocws y rhaglen ac i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i'w rhoi ar waith 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni amcanion ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau; ond mae'r amcanion trawsnewid ac arbed wedi cyd-doddi, ac mae mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r trydydd amcan o ran gwaith partneriaeth 6

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i lywodraethu ac i reoli'r rhaglen, ond mae lle i'w mireinio nawr i ategu'r camau i newid trywydd y rhaglen 7

Mae cyfle i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i roi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith, er bod y cymorth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol i brosiectau unigol wedi'i werthfawrogi 8

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ailbennu pwrpas y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau nawr er mwyn iddi ganolbwyntio ar drawsnewid 9

Adroddiad cryno

Crynodeb

Beth wnaethom ei adolygu a pham?

- 1 Bu i Gabinet Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) gymeradwyo'r strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau ym mis Tachwedd 2014. Nod y strategaeth oedd 'ail-lunio'r Cyngor i'w alluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen'¹.
- 2 Mae i'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau dri amcan, sef:
 - pennu ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau sy'n sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion a/neu'n rhoi dulliau mwy effeithlon o'u darparu;
 - bodloni heriau ariannol y dyfodol a mynd ati ar yr un pryd i liniaru effaith toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau; a
 - datblygu'r Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau eu bod yn gallu bodloni heriau'r dyfodol.
- 3 Mae'r Cyngor wedi pennu prosiectau fesul swp: mae rhai prosiectau wedi dod i ben, ond mae prosiectau amrywiol yn dal i fynd rhagddynt, ffaith sy'n cydnabod mai rhaglen tymor canolog yw hon.
- 4 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.

Beth wnaethom ei ganfod?

- 5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn hwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i roi ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith?
- 6 Yn gyffredinol, bu inni ganfod bod Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei rheoli'n effeithiol a'i bod wedi helpu i gyflawni arbedion, ond mae cyfle nawr i ailbennu ffocws y rhaglen ac i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i'w rhoi ar waith. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:
 - mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni amcanion ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau; ond mae'r amcanion trawsnewid ac arbed wedi cyddoddi, ac mae mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r trydydd amcan o ran gwaith partneriaeth;
 - mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i lywodraethu ac i reoli'r rhaglen, ond mae lle i'w mireinio nawr i ategu'r camau i newid trywydd y rhaglen;
 - mae cyfle i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i roi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith, er bod y cymorth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol i brosiectau unigol wedi'i werthfawrogi; ac

¹ Cyngor Bro Morgannwg, Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau, Tachwedd 2014

- mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ailbennu pwrpas y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau nawr er mwyn iddi ganolbwyntio ar drawsnewid.

Cynigion gwella

Arddangosyn 1: mae'r tabl isod yn rhestru'r cynigion gwella a bennwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

Cynigion gwella	
C1	Dylai'r Cyngor ystyried pa gamau ychwanegol y gall eu cymryd i gydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i helpu i gyflawni amcan partneriaeth y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.
C2	Gan fod y Cyngor yn bwriadu newid pwyslais y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau rhag iddi ymwneud yn bennaf ag arbedion, dylai adolygu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu pa brosiectau sy'n cael eu cynnwys ynddi, a'r mesurau a ddefnyddir i fonitro hynt prosiectau.
C3	Dylai'r Cyngor bennu hyfforddiant a chymorth pellach i helpu staff i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ymateb i newid trawsnewidiol.
C4	Dylai'r Cyngor sicrhau bod y cynllun gweithlu sydd yn yr arfaeth yn cefnogi'r broses o roi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith, a bod yr anghenion o ran y gweithlu'n cael eu pennu a'u hystyried yn fanwl yn nogfennau'r prosiectau.
C5	Os yw'r Cyngor am ganolbwyntio ar brosiectau sy'n fwy trawsnewidiol eu natur, dylai sicrhau ei fod yn dysgu gwersi o'r prosiectau cynharach ac yn rhoi systemau ar waith i gryfhau unrhyw wendidau a bennir.

Adroddiad manwl

Mae Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mae wedi helpu i gyflawni arbedion, ond mae cyfle nawr i ailbennu ffocws y rhaglen ac i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i'w rhoi ar waith

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni amcanion ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau; ond mae'r amcanion trawsnewid ac arbed wedi cyd-doddi, ac mae mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r trydydd amcan o ran gwaith partneriaeth

7 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- roedd y Cyngor yn gallu rhoi sawl enghraifft o wasanaethau a gafodd eu hail-lunio drwy'r rhaglen:
 - llyfrgelloedd cymunedol;
 - sefydlu cwmni arlwyio masnachol;
 - ailfodelu'r Gwasanaethau Cymdogaeth; a
 - newid y gwasanaethau dydd a ddarperir gan y Gwasanaethau i Oedolion.
- er nad yw pob un o brosiectau'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau wedi cyrraedd ei darged arbedion, mae'r Cyngor, yn gyffredinol, wedi gwneud arbedion sylweddol o ganlyniad i'r rhaglen. Mae adroddiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni 82% o darged arbedion Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau 2018-19 o £6.298 miliwn.
- cyflawnwyd rhai arbedion drwy ailfodelu'r gweithlu; serch hynny, ceir tystiolaeth bod y rhaglen wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddiwylliant y sefydliad ar y cyfan, yn enwedig o ran annog staff i feddwl mewn ffyrdd sy'n torri tir newydd.
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhaglen wedi canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau tu mewn i'r Cyngor hyd yma, felly mae mwy i'w wneud i ddatblygu partneriaid yn unol â thrydydd amcan y rhaglen.
- ceir rhai enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi cydweithio â grwpiau cymunedol neu gynghorau tref a chymuned, ond mae'r rhan fwyaf o'r mentrau hyn wedi canolbwyntio ar drosglwyddo asedau neu wasanaethau yn hytrach na bod yn wirioneddol drawsnewidiol.
- gan fod un o amcanion y rhaglen yn ymwneud â gwaith partneriaeth, efallai y bydd y Cyngor am ystyried sut y gall ddatblygu dull o feithrin cysylltiadau â phartneriaid amrywiol dros y tymor canol i'r tymor hir. Mae'r Cyngor yn cydweithio ag ystod eang o sefydliadau y mae eu hadnoddau a'u capasiti'n

amrywio. Canfu ein hadolygiad ei bod yn bosibl nad yw'r dulliau ymgysylltu presennol yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i wireddu ei ddyhead o ddatblygu partneriaid i helpu i fodloni heriau'r dyfodol.

- dywedodd y Cyngor wrthym ei fod am newid ffocws y rhaglen er mwyn iddi ganolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau yn hytrach nag arbedion. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cynnwys rhai prosiectau a fydd yn gwneud arbedion ond na fyddant yn drawsnewidiol. Mae llawer o waith hefyd yn mynd rhagddo yn y Cyngor y gellir ei ystyried yn waith trawsnewidiol ond nad yw wedi'i gynnwys yn y rhaglen oherwydd nad oes arbedion ynghlwm wrtho. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith mapio cymunedol lle mae swyddogion yn ymgysylltu ag ardal ddaearyddol benodol ac yn mapio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yno a'r rheini nad ydynt ar gael. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r Cyngor i bennu'r ffordd orau o wario arian adran 106² neu arian grant Cymunedau Cryf.

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i lywodraethu ac i reoli'r rhaglen, ond mae lle i'w mireinio nawr i ategu'r camau i newid trywydd y rhaglen

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Bwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cael adroddiadau diweddar rheolaidd sy'n rhoi crynodeb o uchafbwyntiau pob prosiect a'r cynnydd sy'n cael ei wneud ganddynt, ochr yn ochr ag adroddiadau manwl am brosiectau penodol. Cyflwynir adroddiadau i'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu hefyd.
- dywedodd y rheini a gafodd eu cyf-weld gennym yn gyson eu bod yn fodlon ag ansawdd a swm yr wybodaeth y maent yn ei chael am y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae'r Tîm Gwella Busnes sy'n rhoi cymorth corfforaethol canolog i brosiectau'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn uchel ei barch ymhlith aelodau a swyddogion.
- Bu i'r Cyngor gomisiynu SWAP (Partneriaeth Archwilio De-orllewin Lloegr) i gynnal gwerthusiad archwilio mewnol o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ym mis Ebrill 2019. Bu SWAP yn archwilio pedwar prosiect penodol sy'n rhan o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Er i SWAP ganfod rhai mân broblemau llywodraethu, er enghraifft, na chafodd newidiadau i swyddi penodol eu nodi yn yr adroddiadau a oedd yn rhoi crynodeb am yr holl brosiectau, canfu SWAP yn gyffredinol fod y trefniadau rheoli prosiectau a'r trefniadau llywodraethu yn unol â gofynion y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.
- canfu ein hadolygiad hefyd nad yw'r meini prawf i gynnwys prosiect yn y rhaglen bob amser yn glir, a bod hyn yn arwain at gynnwys prosiectau sy'n

² Mae arian adran 106 yn cyfeirio at rwymedigaethau cynllunio – cytundebau a wneir rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr.

canolbwyntio ar wneud arbedion yn hytrach na bod yn wirioneddol drawsnewidiol. Byddai'r Cyngor yn elwa o adolygu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu pa brosiectau sy'n cael eu cynnwys, yn enwedig wrth iddo fynd ati i ganolbwyntio ar drawsnewid yn hytrach nag arbedion.

- ar hyn o bryd, mae adroddiadau cynnydd yn dangos statws coch/melyn/gwyrdd pob prosiect i ddangos a yw wedi cyflawni'r arbedion arfaethedig ai peidio. Os yw'r Cyngor am wanhau'r cysylltiad rhwng y rhaglen a gwneud arbedion, bydd angen iddo ailystyried sut y mae'n monitro prosiectau unigol, gan ganolbwyntio llai ar arbedion fel y brif ffordd o fesur llwyddiant neu fethiant.

Mae cyfle i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu i helpu i roi'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith, er bod y cymorth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol i brosiectau unigol wedi'i werthfawrogi

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth Adnoddau Dynol ar hyn o bryd, a disgwylir i'r cynllun gweithlu presennol gael ei ddisodli yn 2020. Am gyfnod, bu swydd Pennaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn wag, ond mae'r swydd honno wedi'i llenwi erbyn hyn ac rydym wedi cael ar ddeall bod strategaeth Adnoddau Dynol newydd a chynllun gweithlu newydd wrthi'n cael eu llunio.
- roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod Adnoddau Dynol yn rhoi cymorth da iddynt â'u prosiectau Ail-lunio Gwasanaethau.
- mae cyfle i gryfhau'r rôl y mae Adnoddau Dynol yn ei chwarae yn y rhaglen ar lefel fwy strategol, er enghraifft, o ran modelu'r math o weithlu y gall fod ei angen ar y Cyngor yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor broffil clir o'i weithlu presennol, ond mae'n cydnabod bod angen iddo ddatblygu'r modd y mae'n defnyddio data i ddog i ddeall yn well y gweithlu y bydd ei angen arno yn y dyfodol.
- mae'r cynllun gweithlu presennol yn cydnabod y bydd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'n esgor ar anghenion hyfforddi a datblygu ychwanegol. Darparwyd rhywfaint o hyfforddiant, fel yr hyfforddiant ymwybyddiaeth fasnachol a ddarparwyd fel rhan o'r prosiect gwasanaethau arlwygo. Fodd bynnag, mae angen darparu hyfforddiant a chymorth pellach i helpu staff i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i ymateb i newid trawsnewidiol.
- dylai'r Cyngor ystyried sut y gall ei gynllun gweithlu newydd gefnogi a llywio'r broses o roi ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith. Pan fydd yn gwneud hynny, dylai'r Cyngor sicrhau bod dogfennau cychwyn prosiectau ac adroddiadau prosiectau'n pennu ac yn ystyried yn fanwl yr anghenion o ran y gweithlu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen ailbennu pwrpas y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau nawr er mwyn iddi ganolbwyntio ar drawsnewid

10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae aelodau ac uwch-swyddogion wedi pwysu a mesur y rhaglen a dod i'r casgliad y dylent fynd ati i ganolbwyntio mwy ar drawsnewid a gwaith partneriaeth, a chanolbwyntio llai ar arbedion.
- mae'n galonogol bod gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi adolygu agweddau ar y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Ar gyfer ei adolygiad ym mis Ebrill 2019, bu SWAP yn adolygu sampl o brosiectau'r rhaglen. Yn gyffredinol, canfu'r adroddiad lefel 'resymol' o sicrwydd, gyda rhai enghreifftiau o arferion da, fel y cyfathrebu a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect arlwyo a phrosiect y Gwasanaethau Cymdogaeth. Nododd SWAP hefyd nad oedd unrhyw ofyniad ffurfiol i gynnal nac i gofnodi adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' ar ôl i brosiect y Gwasanaeth Arlwyo ddod i ben. Drwy beidio â gwneud hynny, roedd SWAP yn tybio y gallai'r Cyngor fod yn colli cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddo hyd yma, ac i fanteisio ar y gwersi hynny.
- Rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad am y cwmni arlwyo newydd ym mis Hydref 2019 gan ddod i'r farn iddo gael sicrwydd cyfyngedig. Canfu adroddiad dilynol ym mis Ionawr 2020 fod yr ymateb i'w argymhellion cynharach wedi bod yn araf, felly daeth i'r un farn iddo gael sicrwydd cyfyngedig eto. Er ei fod yn cyfeirio at y cwmni arlwyo fel enghraifft dda o brosiect trawsnewidiol, mae'r adroddiad Archwilio Mewnol yn egluro bod rhai materion sylfaenol y mae angen eu datrys, fel y ffaith na cheir contractau neu gytundebau ffurfiol rhwng y Cyngor a'r cwmni arlwyo ar gyfer gwasanaethau cymorth fel cyllid, TGCh a'r gyflogres. O wybod bod y cynigion i greu'r cwmni wedi'u cymeradwyo ym mis Ebrill 2017, byddai'n rhesymol disgwyl y byddai materion o'r fath wedi'u datrys cyn i'r cwmni ddechrau masnachu ym mis Ionawr 2020. Dylai'r Cyngor ddysgu o'i brosiectau i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau amgen, a rhoi trefniadau cadarnach ar waith ar gyfer ei brosiectau trawsnewidiol yn y dyfodol.
- roedd y prosiectau hynny y cyfeiriwyd atynt amlaf fel rhai llwyddiannus a thrawsnewidiol yn dueddol o fod yn rhan o sypiau cynharach y rhaglen. Mae sypiau mwy diweddar wedi tueddu i ganolbwyntio ar faterion corfforaethol yn hytrach na gwasanaethau penodol, ac roedd pobl dan yr argraff iddynt gael llai o effaith. Dywedodd rhai o'r bobl a gafodd eu cyf-weld wrthym eu bod yn teimlo bod y rhaglen wedi colli rhywfaint o'i momentwm yn ystod sypiau mwy diweddar.
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo bwysu a mesur y cynnydd y mae'r rhaglen wedi'i wneud hyd yma, ac ystyried y ffordd ymlaen. Mae ganddo Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-25 ac mae wrthi'n adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad. Mae hyn, law yn llaw â setliad

ariannol mwy cadarnhaol 2020-21, yn gyfle i'r Cyngor ailbennu ffocws y rhaglen.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.